SESIWN GYMRAEG: PAM Y MAE LLAI O FENYWOD YN CHWARAE PÊL-DROED NA DYNION?

Ystod oedran: 9–14 oed

Amlinelliad
Bydd dysgwyr yn defnyddio “llinell gytuno” i ystyried eu canfyddiadau a’u hagweddau tuag at rywedd a chwaraeon. Yna, byddant yn cydweithio mewn grwpiau i ddarllen a threfnu gwybodaeth er mwyn datrys ‘dirgelwch’ ynghylch pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi dysgwyr i gael trafodaeth strwythuredig ar y pwnc, gan drafod y rhwystrau sy’n wynebu menywod yn y byd pêl-droed a’r ffyrdd posibl o’u goresgyn. Yn olaf, bydd dysgwyr yn trafod enghreifftiau eraill o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas yn ehangach, cyn ystyried y newidiadau y maent am eu gweld yn y maes hwn yn y dyfodol.

Amcanion dysgu
- Defnyddio tystiolaeth mewn testun i gyfiawnhau ymateb.
- Datblygu sgiliau meddwl beirniadol, cydweithio a thrafod.
- Archwilio a herio eu tybiaethau a’u canfyddiadau eu hunain, a rhai eraill.
- Deall ystyr anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, yng nghyd-destun pêl-droed ac o ran cyfleoedd mewn bywyd yn gyffredinol.

Deilliannau dysgu
- Bydd dysgwyr yn defnyddio “llinell gytuno” i ystyried eu canfyddiadau a’u hagweddau eu hunain, a rhai eraill, ynghylch rhywedd a chwaraeon.
- Bydd dysgwyr yn cydweithio mewn grwpiau i ddarllen, trefnu a thrafod datganiadau sy’n gysylltiedig ag anghydraddoldeb mewn pêl-droed.
- Caiff dysgwyr eu cyflwyno i enghreifftiau eraill o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas yn ehangach, cyn ystyried pa newidiadau y maent yn dymuno eu gweld yn y maes hwn yn y dyfodol.

Cwestiynau allweddol
- Pam y byddai rhywun yn meddwl bod math penodol o chwaraeon yn fwy “gwrywaidd” neu “fenywaidd”?
- A ddylai fod gan ddynion a menywod fynediad cyfartal at wneud chwaraeon o bob math? A ddylid talu dynion a menywod yr un cyflog am gymryd rhan yn yr un math o chwaraeon? Pam? / Pam ddim?
- Beth ydych chi’n credu sy’n rhwystro menywod rhag chwarae pêl-droed? Ydych chi’n credu bod y rhwystrau hyn yn gyffredin ym mhob rhan o’r byd? Pam? / Pam ddim? Sut yr ydych chi’n credu y gellid datrys yr heriau hyn?
- A allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill lle nad yw cyfleoedd bywyd yn gyfartal i fenywod a dynion neu ferched a bechgyn?
- Beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd i faes cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y dyfodol?

Adnoddau
- Sioe Sleidiau Gymraeg*: Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*
- Taflenni adnoddau:
  1. *Cardiau Dirgel Pêl-droed 1*
  2. *Cardiau Dirgel Pêl-droed 2*
- Taflen weithgaredd:
  1. Dyfodol delfrydol

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Noder: Mae'r gweithgareddau nesaf yn archwilio sefyllfa anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn y byd pêl-droed a'r byd ehangach, o ran profiadau a rolau gwrywaidd a benywaidd. *Yn dibynnu ar oedran y dysgwyr a'r cyd-destun, efallai y bydd athrawon hefyd am gydnabod a thrafod materion anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol+.*

Gweithgaredd 1 (15 mun)

Ble rydych chi'n sefyll?

Noder: Addaswyd y gweithgaredd hwn o syniad addysgu gan y *Gender Respect Project, a gydlynwyd gan y Development Education Centre South Yorkshire (DECSY):* genderrespect2013.wordpress.com/teaching-ideas/primary/

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu bod llinell ar draws y gofod dysgu, gydag un pen yn "fenywaidd" a'r pen arall yn "wrywaidd". Neu, gallech argraffu labeli "gwrywaidd" a "benywaidd" a'u harddangos ar bob pen o'r llinell.
- Eglurwch i'r dysgwyr y byddwch yn galw enwau gwahanol fathau o chwaraeon. Ar gyfer pob math o chwaraeon, dylai'r dysgwyr sefyll ar ryw ran o'r llinell, gan ddibynnu a ydynt yn ystyried y math hwn o chwaraeon yn fenywaidd, yn wrywaidd, yr un mor gyfartal i'r ddau ryw, neu rywle yn y canol.
- Ar gyfer pob math o chwaraeon, gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r rhesymau pam y maent wedi dewis eu safleoedd. Cyn symud ymlaen i'r math nesaf o chwaraeon, anogwch y dysgwyr i addasu eu safle ar y llinell yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi ei glywed gan eraill yn y grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr egluro'r rhesymau dros eu safleoedd newydd.
- Gorffennwch trwy drafod y gweithgaredd yn sydyn:
  - *Pam y gallai rhywun feddwl bod math penodol o chwaraeon yn fwy "gwrywaidd" neu "fenywaidd"?*
  - *Pwy newidiodd safle ar ôl clywed gan eraill yn y grŵp? Beth â'ch ysgogodd i newid eich meddwl?*
  - *A ddylai fod gan ddynion a menywod gyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob math o chwaraeon?* A ddylid talu cyflogau cyfartal i ddynion a menywod os ydynt yn cymryd rhan yn yr un math o chwaraeon? Pam?/Pam ddim?
  - *A ydych chi'n credu bod dynion neu fenywod (neu fechgyn a merched) yn gallu cymryd rhan gyfartal ym mhob math o chwaraeon?*

Gweithgaredd 2 (40+ mun)

Pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion?

Noder: Gelwir y gweithgaredd hwn yn 'ddirgelwch' gan fod y dysgwyr yn rhoi cliwiau at ei gilydd sydd wedi eu hysgrifennu ar wahanol ddarnau o bapur er mwyn datrys problem. Mae dirgelion yn arf llythrennedd gwych ar gyfer datblygu sgiliau meddwl beirniadol a sgiliau ffurfio casgliadau. Mae'r dirgelwch hwn yn galluogi'r dysgwyr i archwilio ystod o bethau a allai fod yn achosi anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n bodoli yn y byd pêl-droed, ynghyd ag ystyried sut y gall y ffactorau hyn ryngweithio â'i gilydd. Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, ceisiwch sicrhau bod y dysgwyr wedi deall bod gweithredoedd nifer o bobl a grwpiau, ynghyd â pholisïau llywodraethau a chonfensiynau cymdeithasol, yn cyfrannu tuag at y broblem hon, a'r ffyrdd posibl o'i datrys. Am ragor o wybodaeth am ddefnyddio 'dirgelion' yn y dosbarth, gweler t. 15 o gyhoeddiad Oxfam: Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth – Canllaw ar gyfer yr Athro: www.oxfam.org.uk/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers http://www.oxfam.org.uk/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar, ac eglurwch mai'r dasg yw datrys dirgelwch trwy ateb y cwestiwn: *Pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion? Noder: Efallai y byddwch am dreulio ychydig o amser yn archwilio syniadau'r dysgwyr am y cwestiwn hwn yn gyntaf, cyn dechrau'r gweithgaredd.*
- Rhowch gopi o *Cardiau Dirgel Pêl-droed 1* a *2* (Taflenni adnoddau 1 a 2) i bob grŵp. Eglurwch fod y cardiau hyn yn cynnig set o gliwiau, efallai y bydd rhai ohonynt yn fwy defnyddiol nag eraill. Dylai'r dysgwyr dorri'r datganiadau allan a gweithio fel grŵp er mwyn ystyried eu hymateb i'r cwestiwn.
- Dywedwch wrth y dysgwyr fod angen iddynt geisio datrys y dirgelwch trwy drefnu'r wybodaeth a ddarperir yn y cliwiau ar y cardiau. Dylid eu hannog i chwilio am yr hyn sy'n cysylltu'r cliwiau â'i gilydd, a grwpio'r cliwiau mewn ffyrdd i'w helpu i egluro, mor llawn â phosibl, yr amryw resymau pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Gallent hepgor rhai cardiau os nad ydynt yn teimlo bod yr wybodaeth yn berthnasol, a gallwch roi cardiau gwag iddynt er mwyn ychwanegu eu pwyntiau eu hunain. Pwysleisiwch y bydd angen i'r dysgwyr fod yn barod i gyfiawnhau eu hatebion i eraill, ac ewch ati i'w hannog i drafod yn eu grwpiau yr achosion, yr effeithiau a'r cysylltiadau y maent yn eu creu.
- Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau'r dasg, rhowch amser i bob grŵp rannu eu hymateb â gweddill y dosbarth. Yn ddibynnol ar yr hyn sy'n deillio o'r drafodaeth, anelwch at adolygu'r pwyntiau canlynol:
    - *O'r hyn a gasglwyd gennych, pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion?*
    - *A ydych chi'n credu bod y ffactorau sy'n rhwystro menywod rhag chwarae pêl-droed yr un peth ledled y byd? Pam?/Pam ddim?*
    - *Beth ydych chi'n credu fyddai'n helpu mwy o ferched a menywod i chwarae pêl-droed?*
    - *Pwy ydych chi'n credu sy'n gyfrifol am ei gwneud hi'n haws i fenywod a merched chwarae pêl-droed?*
    - *A ydych chi'n credu bod mynediad i bêl-droed menywod yn gwella? Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?*
    - *A ydych chi'n gallu meddwl am fathau eraill o chwaraeon sy'n anghyfartal o ran y mynediad i ddynion a menywod? A oes unrhyw fathau o chwaraeon lle mae llai o ddynion yn cymryd rhan ynddynt na menywod? Beth yw'r mathau hyn o chwaraeon, a pham ydych chi'n credu hyn? Er enghraifft,* efallai yr hoffech gyfeirio at Loegr yn ennill y twrnamaint pêl-rwyd yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2018.
    - *A ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau eraill lle y gall cyfleoedd bywyd fod yn anghyfartal i fenywod a dynion neu ferched a bechgyn?*
    - *A ydych chi'n credu bod anghydraddoldeb rhwng y rhywiau (yn y byd pêl-droed neu mewn maes arall) yn broblem yn eich ysgol neu yn eich cymuned? Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn? Beth ydych chi'n credu sydd angen ei wneud i newid pethau, a phwy ddylai fynd ati i'w newid?*
- Er mwyn ymestyn y gweithgaredd hwn, gellid gofyn i ddysgwyr ysgrifennu darn o waith estynedig, gan ddefnyddio ffrâm ysgrifennu, i ymateb yn llawn i'r cwestiwn pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Gallai'r ffrâm ysgrifennu gynnwys penawdau megis:
    - *Cyflwyno'r broblem.*
    - *Beth sy'n atal menywod rhag chwarae pêl-droed?*
    - *Sut y mae pethau wedi newid dros amser? Sut yr ydych chi'n credu y bydd y sefyllfa'n newid yn y dyfodol?*
    - *Sut yr ydych chi'n credu y gellir datrys hyn?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws:* Rhannwch y cardiau dirgel ymysg y grwpiau fel bod gan bob grŵp ddau neu dri o gardiau yn unig i'w darllen, ac i chwilio am gliwiau arnynt. Gofynnwch i bob grŵp rannu eu syniadau cyn gweithio gyda'i gilydd fel dosbarth cyfan i "ddatrys" y dirgelwch.

Gweithgaredd 3 (30+ mun)

Cyfartal neu anghyfartal yn y dyfodol?

- *Noder: Ymarfer mapio meddwl yw'r gweithgaredd hwn, sy'n helpu pobl i ystyried a mynegi eu syniadau – yn rhai cadarnhaol a negyddol – am y dyfodol. I gael rhagor o fanylion, gweler* t. *18 o gyhoeddiad Oxfam*, Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers:: *www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers*
- Atgoffwch y dysgwyr eu bod, yn y gweithgaredd diwethaf, wedi archwilio rhai o'r rhesymau pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Eglurwch fod hyn yn enghraifft o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.
- Dangoswch sleid 3 o'r sioe sleidiau Gymraeg ac eglurwch y gallwn ystyried anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'u cymharu â grwpiau eraill o bobl. Mae bron fel edrych ar ba mor fawr yw'r darn o gacen sydd gan un person o'i gymharu â'r darn sydd gan berson arall.
- Dangoswch sleid 4 a dywedwch fod pobl yn aml yn meddwl am anghydraddoldeb o ran faint o arian neu gyfoeth sydd gan wahanol bobl; mae anghydraddoldeb hefyd yn ymwneud â chyfleoedd pobl, e.e. mynediad at ddŵr glân, mynd i'r ysgol, ymweld â'r doctor neu chwarae pêl-droed.
- Eglurwch fod anghydraddoldeb yn bodoli rhwng gwledydd, a bod gan rai gwledydd fwy o gyfoeth na gwledydd eraill. Fodd bynnag, mae hefyd anghydraddoldeb o fewn gwledydd rhwng gwahanol grwpiau o bobl, e.e. rhwng rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, pobl o wahanol ethnigrwydd a phobl o wahanol rywiau.
- Dangoswch sleid 5 a gofynnwch i'r dysgwyr a allant feddwl am enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod neu ferched a bechgyn, heblaw am yn y byd pêl-droed. Trafodwch yr hyn y mae'r dysgwyr yn credu sy'n achosi'r anghydraddoldebau hyn.
- Dangoswch sleid 6 ac eglurwch fod llawer o gynnydd wedi ei wneud yn y degawdau diwethaf i wneud bywyd yn decach i fenywod ac i ferched. Er enghraifft:
    - *Dim ond 100 mlynedd yn ôl y cafodd rhai menywod yr hawl i bleidleisio yn y DU. Heddiw, y mae gan fenywod yr hawl i bleidleisio ym mron pob gwlad yn y byd.*
    - *Mae mwy o ferched yn mynd i'r ysgol nag erioed o'r blaen.*
    - *Mae mwy o fenywod yn gweithio am dâl.*
    - *Mae cyfreithiau mewn grym ledled y byd i gefnogi anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.*
- Fodd bynnag, nid yw'n fêl i gyd; mae llawer i'w wneud eto cyn i gyfleoedd bywyd fod yn gyfartal i fenywod a dynion. Rhannwch y ffeithiau ar sleid 7.
    - *Mae mwyafrif y rhai sy'n byw mewn tlodi yn fenywod ac yn ferched.*[1]
    - *Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn gwaith â chyflog isel. Maent yn ennill llai o gyflog am wneud yr un rolau, a hefyd maent yn aml yn y rolau sy'n derbyn llai o gyflog.*[1]

[1] F Rhodes, A Parvez ac R Harvey (2017). *An economy that works for women.* Oxfam.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- *Ar gyfartaledd, mae menywod yn gwneud dwywaith cymaint o waith gofal di-dâl â dynion, megis gofal plant a gwaith tŷ – weithiau 10 gwaith cymaint, yn aml ar ben eu gwaith cyflogedig.*[1]
- *Dim ond 23% o seneddwyr ledled y byd sy'n fenywod.*[2]

- Rhowch amser i'r dysgwyr ystyried y ffeithiau hyn. Efallai yr hoffech wneud hyn ar ffurf gweithgaredd *Meddwl, Paru, Rhannu*:
  - *Meddwl: Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl ar eu pennau eu hunain am funud.*
  - *Paru: Rhowch funud neu ddwy i'r dysgwyr gymharu eu syniadau.*
  - *Rhannu: Treuliwch rai munudau yn rhannu rhai o awgrymiadau'r dysgwyr i'r grŵp cyfan.*
- Ewch ati 'nawr i rannu'r dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp.
- Yn eu grwpiau, dylai'r dysgwyr dynnu llinell amser ar ddarn mawr o bapur (gweler y diagram isod ac ar sleid 8). Fel arall, gallech ddosbarthu copïau A3 o'r templed a ddarperir yn *Dyfodol delfrydol* (Taflen weithgaredd 1).
- Ar y llinell amser is, dylai'r dysgwyr nodi'r pethau y maent yn meddwl a fydd yn debygol o ddigwydd mewn perthynas ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Gellir eu cynrychioli mewn sawl ffordd, er enghraifft geiriau, darluniau neu ddelweddau wedi'u torri allan. Ar hyd y llinell amser uchaf, dylai'r dysgwyr ychwanegu'r pethau y byddai'n well ganddynt eu gweld yn digwydd.



- Caniatewch amser i'r dysgwyr rannu eu llinellau amser a'u syniadau am y dyfodol â grwpiau eraill. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - *Pa newidiadau ar gyfer dynion a menywod yr ydych yn meddwl sydd fwyaf tebygol o ddigwydd?*
  - *Pa newidiadau y byddai'n well gennych eu gweld yn digwydd?*
  - *A oes unrhyw un arall yn rhannu eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol? Os felly, pwy? Gall yr unigolyn hwn fod yn rhywun yn eich dosbarth, eich ysgol neu eich cymuned, neu'n berson enwog.*
  - *Beth sydd angen ei newid os yw'r dyfodol yr ydych yn ei ffafrio yn mynd i ddod yn wir? Beth yw'r heriau a sut y gellir eu goresgyn?*
  - *Pwy sy'n gweithredu i greu dyfodol o'r fath? Pwy arall a ddylai fod yn gweithredu?*
  - *Sut y gallwn ni ein hunain gyfrannu at y dyfodol hwn a ffefrir?*
  - *Beth fydd yn digwydd os na chymerir unrhyw gamau?*

[2] archive.ipu.org/wmn-e/world.htm

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ganolbwyntio ar enghraifft benodol o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, er enghraifft menywod yn chwarae pêl-droed, yn hytrach na chanolbwyntio ar y mater yn gyffredinol.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ymestyn y llinell amser i'r chwith (fel y dangosir yn y diagram), gan fynd yn ôl mewn amser cyn y presennol. Gallent wedyn anodi'r llinell hon i ddangos newidiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gorffennol.*

Syniadau pellach

- Rhowch gynnig ar weithgareddau a syniadau addysgu eraill o'r *Gender Respect Project.* Nod y prosiect hwn, dan arweiniad DECSY, yw helpu plant a phobl ifanc i ddeall, cwestiynu a herio anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thrais, a hynny mewn cyd-destunau lleol a byd-eang: genderrespect2013.wordpress.com/teaching-ideas/
- Defnyddiwch weithgareddau o Fforwm FYS i ddysgu rhagor am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r fforwm FYS yn cynnig syniadau, methodolegau ac adnoddau addysgu ar gyfer archwilio materion rhywedd trwy fforymau ieuenctid. Efallai yr hoffai'r dysgwyr gynnal fforwm gydag ysgolion eraill yn eu cymuned leol. fys-forums.eu/ên/fys-toolkit/forum-curriculum <http://fys-forums.eu/en/fys-toolkit/forum-curriculum>
- Ysgrifennwch stori am bêl-droed a ddefnyddiwyd yng Nghwpan y Byd 2018. Meddyliwch am ba le yn y byd y gwnaed y bêl, sut y cafodd ei chynhyrchu a'r bobl a oedd yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Disgrifiwch amodau gwaith ac elw'r gwahanol bobl dan sylw, o'r ffatri lle cafodd ei chynhyrchu i'r defnyddiwr ar ddiwedd y gadwyn. Yn aml, effeithir yn fwy negyddol ar fenywod a phlant na dynion o fod ar waelod y gadwyn gyflenwi; er enghraifft trwy effeithio ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer gofal plant neu i fynd i'r ysgol.
- Gwyliwch glip fideo byr (*Playing Fair: The Story of Fair Trade Footballs*) o'r Sefydliad Masnach Deg i ddarganfod sut y caiff y bêl-droed ei gwneud ym Mhacistan a'r effaith y mae Masnach Deg wedi'i chael ar fywydau rhai pobl sy'n ymwneud â'i chynhyrchu:schools.fairtrade.org.uk/resource/football/ *(8 mun, 5 eiliad)*
- Gweler *Fair's fair – Life and rights in the global sports industry* gan Playfair, 2012 i ddysgu mwy am rai o'r bobl sy'n creu'r nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb fawr ddim hawliau, ac am gyflogau isel iawn:

  www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf
- Bu llawer o ddadlau ynghylch llwyfannu Cwpan y Byd 2018 yn Rwsia, gyda rhai pobl yn galw ar wledydd a thimau i foicotio'r digwyddiad. Trefnwch ddadl ar y pwnc llosg hwn: *A ddylai Lloegr gymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018?*

  I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, *Teaching Controversial Issues,* a ddiweddarwyd yn ddiweddar: www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues
- Defnyddiwch y rhyngrwyd i ymchwilio i'r ffordd y mae gwahanol fudiadau'n mynd ati i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Archwiliwch y targedau ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau fel yr amlinellir yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy: *Pa mor dda y mae dysgwyr yn meddwl y bydd y targedau hyn o ran helpu i gyflawni'r dyfodol yr hoffent ei weld?* www.undp.org/content/undp/en/home/sustainable-development-goals/goal-5-gender-equality/targets/
- Defnyddiwch y dull Athroniaeth ar gyfer Plant (P4C) i hwyluso trafodaeth, meddwl yn feirniadol a myfyrio ymhlith dysgwyr ar fater anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Cefnogwch y dysgwyr i ddewis cwestiwn athronyddol ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r mater, naill ai'n gysylltiedig â phêl-droed neu'n gysylltiedig ag enghraifft arall o anghydraddoldeb

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

rhwng y rhywiau. Cyflwynwch sgiliau ac iaith athronyddol i alluogi dysgwyr i gael deialog o ansawdd uchel o amgylch y cwestiwn hwn. Am ragor o fanylion ar ddefnyddio P4C yn y dosbarth, gweler canllaw Oxfam: Oxfam's *Guide to Philosophy for Children*, a ddatblygwyd ar y cyd â SAPERE, y Gymdeithas er Hyrwyddo Ymholi a Myfyrio Athronyddol mewn Addysg:
www.oxfam.org.uk/education/resources/philosophy-for-children

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at Gwpan y Byd drwyddo draw, mae hyn ar gyfer defnydd golygyddol yn unig, ac nid oes cysylltiad mewn unrhyw ffordd rhwng FIFA a'r adnodd hwn.

Cardiau Dirgel Pêl-droed 1

Taflen Adnoddau 1

Cynhaliwyd y gêm bêl-droed menywod gyhoeddus gyntaf a gofnodwyd ym 1881. Sefydlwyd Clwb Pêl-droed Menywod Prydain ym 1894.
Mae cyflogau cyfunol pawb sy'n chwarae yn y saith prif gynghrair i fenywod (1,693 o chwaraewyr yn Ffrainc, yr Almaen, Lloegr, UDA, Sweden, Awstralia a Mecsico) bron yr un faint â thâl blynyddol un pêl-droediwr gwrywaidd, yr ymosodwr o Frasil, Neymar, sy'n chwarae i'r clwb Ffrengig, Paris Saint-Germain. Bydd Neymar yn ennill £32.9 miliwn yn 2017/18 o'i gontract gyda'r clwb, er y bydd wir yn ennill lawer yn fwy na hyn trwy ei gytundebau masnachol.[3]
Mae pêl-droed menywod yn cael llawer llai o sylw ar y teledu a'r cyfryngau na phêl-droed dynion. Dim ond 7% o'r holl ddarllediadau chwaraeon yn y DU yw chwaraeon menywod – ar y teledu, ar y radio, ar-lein ac mewn papurau newydd.[4]
Daeth pêl-droed menywod yn boblogaidd iawn tua diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar y pryd, roedd gan lawer o fenywod swyddi mewn ffatrïoedd, gan gymryd lle'r dynion a oedd wedi mynd i ymladd. Roedd tua 150 o dimau menywod yn Lloegr ac roedd gemau pêl-droed menywod yn aml yn denu torfeydd mwy na gemau'r dynion.
Cynhaliwyd y Cwpan y Byd Menywod answyddogol gyntaf yn yr Eidal ym 1970, er nad oedd pencampwriaeth gyntaf Cwpan y Byd Menywod FIFA tan 1991. Cynhaliwyd y Cwpan y Byd FIFA gyntaf (i ddynion) ym 1930.
Ar 5 Rhagfyr 1921, gwaharddodd y Gymdeithas Bêl-droed fenywod rhag chwarae ar gaeau sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas Bêl-droed. Credid bod pêl-droed yn "eithaf anaddas i fenywod". Gwaharddwyd menywod hefyd rhag chwarae pêl-droed mewn gwledydd eraill, megis yr Almaen a Brasil.
Ym mis Ionawr 2018, aeth menywod yn Sawdi Arabia i gêm bêl-droed yn y wlad am y tro cyntaf. Hyd at hynny, nid oedd menywod wedi cael mynd i mewn i unrhyw stadiwm. Dim ond ers 2017 y caniatawyd i ferched yn ysgolion y wladwriaeth yn Sawdi Arabia gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol.
Cynhaliwyd pencampwriaeth bêl-droed swyddogol gyntaf menywod Ewrop ym 1984, 24 mlynedd ar ôl pencampwriaeth gyntaf y dynion, a gynhaliwyd ym 1960.
Clwb Pêl-droed Lewes yn ne-ddwyrain Lloegr oedd y clwb pêl-droed proffesiynol neu led-broffesiynol cyntaf yn ddiweddar i dalu'r un cyflog i'w chwaraewyr pêl-droed gwrywaidd a benywaidd.
Codwyd gwaharddiad y Gymdeithas Bêl-droed ar fenywod yn chwarae pêl-droed ym 1971.

[3] Sporting Intelligence (2017). Arolwg *Global Sports Salaries 2017*. globalsportssalaries.com/
[4] Women in Sport (2015). Pecyn ystadegau i'r cyfryngau. www.womeninsport.org/wp-content/uploads/2015/04/Media-Stats-Pack-June-2015.pdf?938151

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cardiau Dirgel Pêl-droed 2

Taflen Adnoddau 2

£2.64 miliwn yw cyflog cyfartalog chwaraewyr yn yr Uwch Gynghrair (prif gystadleuaeth bêl-droed dynion yn Lloegr), 99 gwaith yn uwch na'r cyflog cyfartalog yn Uwch Gynghrair y Merched (prif gystadleuaeth bêl-droed menywod Lloegr), sef £26,572.[5]
Dim ond 2% o'r holl chwaraewyr pêl-droed benywaidd, sy'n ymwneud â'r gamp ar hyn o bryd, sy'n famau. Dim ond 3% o glybiau pêl-droed yr isadran uchaf ledled y byd sydd â chyfleusterau crèche[6].
Amcangyfrifir bod 137,021 o chwaraewyr pêl-droed proffesiynol gwrywaidd yn y byd, o'i gymharu â 1,287 o fenywod. Golyga hyn fod llai nag 1% o chwaraewyr pêl-droed proffesiynol y byd yn fenywod.[5]
Daeth pêl-droed menywod yn gamp Olympaidd ym 1996. Mae pêl-droed dynion wedi ei gydnabod yn gamp Olympaidd ers 1900.
Ym mis Hydref 2017, cytunodd Cymdeithas Bêl-droed Norwy i dalu'r un cyflog i chwaraewyr yn eu timau cenedlaethol gwrywaidd a benywaidd. Norwy yw'r wlad gyntaf yn y byd i wneud hyn. Fel arfer, mae menywod sy'n chwarae dros eu gwlad yn cael llawer llai o gyflog na chwaraewyr yn nhîm y dynion. Ledled y byd, nid yw 35% o chwaraewyr timau cenedlaethol benywaidd yn cael unrhyw gyflog[6.]
Awgrymwyd mewn arolwg diweddar fod llawer o fenywod yn y DU yn parhau i fod nerfus am gymryd rhan mewn chwaraeon megis pêl-droed, sy'n cael eu hystyried gan nifer o bobl yn "chwaraeon gwrywaidd"; maent yn bod yn poeni am ganfyddiad posibl eraill ohonynt.
Bellach, pêl-droed yw'r gamp tîm fenywaidd fwyaf poblogaidd yn Lloegr.
Mae presenoldeb mewn gemau pêl-droed i fenywod yn y DU wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013, ychydig yn llai na 5,000 o bobl a aeth i Rownd Derfynol Cwpan Cymdeithas Bêl-droed y merched; yn 2018, roedd dros 45,000 o bobl yno. Aeth dros 89,000 o bobl i Rownd Derfynol Cwpan Cymdeithas Bêl-droed y dynion yn 2017.
Mae nawdd yn ffynhonnell incwm bwysig i chwaraeon fel pêl-droed. Fodd bynnag, rhwng 2011 a 2013, dim ond 0.4% o gyfanswm y nawdd chwaraeon a aeth tuag at fenywod. Mae hynny'n golygu bod dros 99% o'r arian wedi mynd tuag at chwaraeon dynion.[7]
Erbyn y byddant yn 10 oed, bydd 95% o fechgyn yn chwarae rhyw fath o bêl-droed. Dim ond 41% yw'r ffigur i ferched[8].
Yn aml, mae gan fenywod lai o amser hamdden na dynion. Ar gyfartaledd, mae menywod yn gwneud dwywaith cymaint o waith gofal di-dâl, megis gofal plant a gwaith tŷ, o'i gymharu â dynion – weithiau 10 gwaith cymaint, yn aml ar ben eu gwaith cyflogedig.[9]

[5] Sporting Intelligence (2017). Arolwg *Global Sports Salaries 2017*. globalsportssalaries.com/

[6] FIFPro (2017). 2017 Adroddiad Cyflogadwyedd Byd-eang FIFPro. Amodau gwaith Pêl-droed Proffesiynol Menywod. www.fifpro.org/en/women-football-committee/2017-employment-report

[7] www.womeninsport.org/how-were-doing-it/sponsorship-media/

[8] www.thefa.com/news/2015/jun/08/we-can-play-release-090615

[9] F. Rhodes, A Parvez ac R. Harvey (2017). *An economy that works for women.* Oxfam. www.oxfam.org/en/research/economy-works-women

Dyfodol delfrydol

Taflen weithgaredd 1



OXFAM